# EUR(2)03-03(min)

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 13 Tachwedd 2003 |
| Amser: | 11.00 |
| Lleoliad: | Hotel Dorint, Boulevard Charlemagne, 11-19, B-1000, Brwsel |
| Yn bresennol: | |
| Aelodau | |

## Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol:

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

## Gwahoddedigion Sefydlog

| | |
|---|---|
| Rose D’Sa | ECOSOC |
| Janet Royall | Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Jill Evans ASE | Aelod o'r Senedd Ewropeaidd |

## Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Ian Vollbracht | Eitem 4 - Tîm Materion Polisi Masnach, Cynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE |
| Owen Jones | Eitem 4 - Cyfarwyddiaeth - Masnach Cyffredinol (C2), Y Comisiwn Ewropeaidd |
| Jon Townley | Eitem 4 - Swyddog Polisi, Oxfam Cymru |
| Jo Leadbeater | Eitem 4 - Pennaeth Eiriolaeth Ewropeaidd, Oxfam Rhyngwladol |
| Graham Meadows | Eitem 5 - Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Polisi Rhanbarthol y Comisiwn Ewropeaidd |
| Mr Dimitrij Pur | Eitem 5 - Polisi Rhanbarthol, Cenhadaeth Gweriniaeth Slofenia i'r Undeb Ewropeaidd |
| William Sleath | Eitem 6 - Tasglu'r Confensiwn, y Comisiwn Ewropeaidd |
| Freddy Evens | Eitem 6 - Pennaeth Materion yr UE, Llywodraeth Ranbarthol Fflandrys |
| Michael Aron | Eitem 6 - Cynghorwr Gwleidyddol, Cynrychiolaeth Barhaol y DU i’r UE |

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| Jackie Brown | Pennaeth yr Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Brwsel |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1 - Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant (11.00am)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth aelodau canlynol y Pwyllgor: Nick Bourne AC, Jonathan Morgan AC a Ieuan Wyn Jones AC, ac oddi wrth y gwahoddedigion sefydlog canlynol: Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE ac Eurig Wyn ASE. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf (11.02 - 11.07)

Papur: EUR(2)02-03(min)

2.1 Mewn perthynas â phwynt 4.8 o gofnodion y cyfarfod blaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a ddarparwyd gan Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet. Cymeradwywyd y cofnodion.

## Eitem 3 - Adroddiad y Gweinidog (11.07 - 11.30)

Papur: EUR(2) 03-03(p1) - Adroddiad y Gweinidog

3.1 Yr oedd Prif Weinidog Cymru wedi mynychu cyfarfod Gweinidogol anffurfiol y Cyngor Ewropeaidd ar bolisi rhanbarthol yn Rhufain. Yr oedd Bill Rammell AS o'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a swyddogion o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd yn rhan o’r Ddirprwyaeth. Cytunwyd ar sefyllfa gyffredin ymlaen llaw, a gwelwyd cryn dipyn o gydweithredu. Yr oedd yr holl wledydd o’r haenen gyntaf a'r ail haenen a oedd ar fin dod yn aelodau wedi eu cynrychioli yn y cyfarfod. Y nod oedd atal unrhyw wyriad oddi wrth yr enillion a gafwyd yn nhestun y Cyfansoddiad drafft, fel yr amlinellwyd yn y papur a roddwyd gerbron y Confensiwn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac os oedd yn bosibl sicrhau enillion pellach. O ran trosi, pwysleisiwyd na fyddai unrhyw ddeddfwriaeth UE yn cael ei gweithredu heb ymgynghori â haenau rhanbarthol y llywodraeth.

3.2 Yr oedd gan y genhadaeth Gymreig ddiweddar i Awstralia aml i bwrpas gan gynnwys mewnfuddsoddiad a hyrwyddo twristiaeth. Yr oedd Awstralia a Seland Newydd yn symud yn gyflym o fod yn gynhyrchwyr sylfaenol i ddatblygu economi wybodus ac mae gan Gymru siawns dda o ddenu cwmnïau technoleg bach sy'n chwilio am ail leoliad y tu allan i Asia. Byddai'r buddiannau i'w gweld yn yr hirdymor. Dywedodd Prif Weinidog Cymru bod cefnogwyr rygbi Cymru wedi bod yn llysgenhadon da iawn ar ran eu gwlad. Ymunodd y Pwyllgor â'r Prif Weinidog i glodfori llwyddiant tîm Cymru.

3.3 Yr oedd Pennaeth Swyddfa Brwsel y Cynulliad wedi dychwelyd yn ddiweddar o gyfarfod Llywyddion Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol (RegLeg) yn Salzburg. Yr oedd RegLeg yn cynrychioli llywodraethau ranbarthol a oedd wedi'u datganoli o wyth Aelod-Wladwriaeth yn yr UE. Yr oedd datganiad y cyfarfod yn galonogol oherwydd ei fod yn dangos enillion cadarnhaol ar gyfer rôl y rhanbarthau am y tro cyntaf. Mae copi o'r datganiad wedi ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

3.4 Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai derbyn gwladwriaethau llai neu'r un maint â Chymru heb unrhyw haenau rhanbarthol o lywodraeth yn arwain at UE-25 a oedd yn fwy neu lai parod i roi sylw i faterion rhanbarthol. Byddai yna gyfleoedd i rannu profiad Cymru a'r Alban o bwerau datganoledig

gyda'r Aelod-Wladwriaethau newydd. Yr oedd yn bwysig datblygu perthynas ystyrlon gyda'r darpar aelod-wladwriaethau ac yr oedd yn arwyddocaol mai Saesneg oedd y 'lingua franca' i nifer ohonynt. Oherwydd prinder adnoddau byddai'n rhaid targedu un neu ddau ohonynt i ddechrau, fel sail ar gyfer datblygu perthnasau gydag eraill yn ddiweddarach. Dylai'r Cynulliad gofio hyn wrth gydgysylltu'i gysylltiad ym Mhwyllgor y Rhanbarthau (COR) a Phwyllgor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR).

3.5 Trafodwyd Llywyddiaeth yr UE mewn Ewrop mwy o faint. Yr oedd y mater yn parhau i gael ei drafod yn y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol (IGC). Yr oedd y gefnogaeth i’r agwedd ddeublyg yn cynyddu, gyda Chadeirydd parhaol i'r Cyngor Ewropeaidd wedi ei benodi gan Benaethiaid Llywodraethau am ddwy flynedd a hanner neu bum mlynedd, Llywyddiaethau tîm ar yr UE, er enghraifft tri Aelod-Wladwriaeth megis y DU, Malta ac Estonia, am ryw 12 mis neu flwyddyn.

11.30 – 12.30

## Eitem 4

## Masnach: cylch diweddaraf Sefydliad Masnach y Byd a masnach deg (11:20 - 12:20)

Papurau:

EUR(2) 03-03(p2) - Canlyniadau Cynhadledd Gweinidogion Sefydliad Masnach y Byd yn Cancun, araith y Comisiynydd Lamy i Gyfarfod Llawn Senedd Ewrop

EUR(2) 03-03(p3) - Penderfyniad Senedd Ewrop ar Bumed Gynhadledd Gweinidogion Sefydliad Masnach y Byd yn Cancun

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Jill Evans ASE, Owen Jones o Gyfarwyddiaeth-Masnach Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd, Ian Vollbracht o Gynrychiolaeth y DU, Jon Townley o Oxfam Cymru a Jo Leadbeater o Oxfam Rhyngwladol i sôn am gylch diweddaraf Sefydliad Masnach y Byd a Masnach Deg.

4.2 Ymddiheurodd Owen Jones ar ran Matthew Baldwin, Dirprwy Bennaeth Cabinet y Comisiynydd Lamy, am ei absenoldeb. Yr oedd Owen Jones yn gweithio ar faterion amaethyddol i Fasnach Cyfarwyddiaeth Gyffredinol ac amlinellodd sefyllfa bresennol y Comisiwn o ran trafodaethau masnach y byd:

- Dylai'r datblygiad Doha ddod i ben erbyn diwedd 2004 ond yr oedd wedi wynebu cryn oedi. Yr oedd y rhesymau pam yn amrywio o'r amserlen i gamgymeriadau tactegol a theorïau cynllwynio. Yr oedd Masnach Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yn credu mai'r mater systematig sef a oedd gwledydd yn fodlon derbyn y rheolau masnachu neu ganolbwyntio ar fynediad i’r marchnadoedd

yn unig oedd yn gyfrifol. Yr oedd y grp G21 o wledydd sy’n datblygu sydd newydd ymddangos yn ddatblygiad cadarnhaol ond nid oedd y grp, ar hyn o bryd, yn ddigon cydlynus i wneud consensiynau ac arweiniodd hyn at anhyblygrwydd yn Cancun.

- Y cam nesaf oedd y cyfarfod yn Genefa ar 15 Rhagfyr ac yr oedd Cadeirydd y Cyngor Cyffredinol yn gobeithio dadflocio'r broses a chyrraedd cytundeb. Trafodwyd y materion yn Cancun ac yr oedd y testun drafft a luniwyd yn fan cychwyn ond byddai'n rhaid i aelodau Sefydliad Masnach y Byd fod yn hyblyg.

- Yr oedd trafod 'materion Singapôr' yn bwysig i'r UE a byddai eu gweithredu yn arwain at fanteision i holl aelodau Sefydliad Masnach y Byd gan gynnwys y gwledydd sy'n datblygu. Serch hynny, daeth i'r amlwg yn Cancun nad oedd y gwledydd sy’n datblygu yn fodlon i'r maes ddatblygu a hanner ffordd drwy'r cyfarfod cytunodd y Comisiwn i ddileu dau fater. Byddai'n rhaid ail-edrych ar 'faterion Singapôr' ac ar y maes.
- Yr oedd lleihau'r dewis yn fater arall a bu'n destun trafodaeth barhaus - Nid oedd y gwledydd sy’n datblygu yn gwbl sicr a oedd y mynediad llawn i'r farchnad yn fuddiol iddynt ai peidio oherwydd byddent yn elwa'n llai ar y dewis o ran masnach.

- Yr oedd angen edrych yn fanwl ar broses gwneud penderfyniadau Sefydliad Masnach y Byd, ac yn enwedig a oedd hi'n bosibl i bob gwlad drafod gyda'i gilydd neu a ddylid cael corff ar wahân er mwyn i grwpiau fynd ato'n annibynnol.

4.3 Yna, gwnaeth Jill Evans ASE annerch y Pwyllgor. Nid oedd wedi mynd i Cancun gyda dirprwyaeth swyddogol Senedd Ewrop oherwydd ei bod yn lobïo yng Nghymru ar faterion Masnach Deg. Dyma brif bwyntiau ei chyflwyniad:

- Yr oedd nifer o ASE'au wedi mynd i Cancun i gyfleu'u safbwyntiau eu hunain ynghylch masnach a gwrthwynebu safbwynt y Comisiwn ar ran yr Aelod-wladwriaethau.
- Yr oedd y ffaith bod y gwledydd sydd yn datblygu wedi sefyll yn gadarn yn gam cadarnhaol a hanesyddol ar gyfer trafodaethau'r dyfodol. Yr oedd y G21 wedi mynnu diwygiadau radical ar faterion megis cymorthdaliadau fferm. Yr oedd hi'n bwysig cofio bod dros 50 y cant o gymorthdaliadau yn mynd at y cynhyrchwyr mawr megis Nestle yn hytrach nag at ffermwyr unigol.
- Cafwyd cryn amrywiaeth o ran teimladau ynghylch y cwymp a'r rhesymau y tu ôl iddo, ond yr oedd yn gwbl glir ei bod hi'n well peidio â chael cytundeb yn hytrach na chael cytundeb gwael nad oedd o gymorth i'r gwledydd tlotaf.

- Yr oedd adroddiadau yng ngwasg y DU yn nodi bod yr Adran Fasnach a Diwydiant eisiau diwygio seiliau a changhennau Sefydliad Masnach y Byd ac yr oeddent yn rhagweld y byddai'n rhyw ddwy flynedd cyn y cynhelir trafodaethau go iawn, yn dilyn ethol Arlywydd newydd yr Unol Daleithiau.
- Erbyn hyn yr oedd perygl y byddai cytundebau dwyochrog anffafriol yn cael eu gwneud yn

absenoldeb cytundebau amlochrog. Yr oedd cynrychiolydd masnach yr Unol Daleithiau wedi sôn y byddai'n dilyn polisi o ddelio â'r rhai oedd 'yn fodlon gwneud' yn hytrach na'r rhai oedd yn 'anfodlon gwneud' a bod rhai gwledydd megis Gwlad y Thai eisoes wedi gadael y G21 oherwydd bygythiadau i'r cytundebau dwyochrog presennol. Er gwaetha'r ffaith bod nifer o wledydd yn gadael, yr oedd y grp yn parhau i gynrychioli 50 y cant o boblogaeth y byd a 63 y cant o ffermwyr y byd.

- Cafwyd amharodrwydd cyffredinol i gyfaddef mai proses gwneud penderfyniadau Sefydliad Masnach y Bydd oedd yn rhannol gyfrifol am y broblem. Yr oedd nifer o gyfarfodydd cyfrinachol yn cael eu cynnal ac nid oedd hyn yn helpu'r broses o ddod i gytundeb da.
- Yr oedd gan nifer o'r awdurdodau lleol yn Cancun bryderon ynghylch y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach a Gwasanaethau (GATS) a sut y byddai'n effeithio ar eu pwerau o ran prynu a darparu gwasanaeth.
- Byddai'n briodol bod Sefydliad Masnach y Byd yn dod o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig.

4.4 Rhoddodd Jon Townley o Oxfam Cymru a Jo Leadbeater o Oxfam Rhyngwladol gyflwyniad ar y cyd. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Byddai cynnydd o 1 y cant mewn masnach yn achub 128 miliwn o bobl yn Affrica rhag tlodi. Am bob £1 a roddir mewn cymorth, yr oedd y gwledydd datblygedig yn cael £2 yn ôl mewn masnach annheg.

- Yr oedd gormod o faterion ar yr agenda yn Cancun ar gyfer y Gweinidogion o ganlyniad i golli dyddiadau cau yn Genefa am ddwy flynedd. Yr oedd hyn, a nifer o ffactorau eraill megis hwyrni'r cytundeb ar feddyginiaethau a diffyg cynnydd ar fesurau atal-dympio fel rhan o fesurau diwygio'r PAC, wedi cyfrannu at greu awyrgylch gelyniaethus.

- Yn gyffredinol yr oedd diffyg penderfynoldeb yr UE i ddiwygio polisi amaethyddol yn faen tramgwydd mawr. Yr oedd un lobi ffermio amlwg ac amaeth-fusnesau mawr yn argymell gwneud cyn lleied â phosibl er mwyn mynd i'r afael â chymorthdaliadau a dympio a gwneud cymaint â phosibl i gynyddu mynediad gwledydd datblygedig at y farchnad. Yr oedd cotwm yn symbol o'r ddadl: yr oedd 25,000 o ffermwyr cotwm yr UDA yn gorfodi polisi dros fuddiannau 25 miliwn o ffermwyr cotwm yn Affrica. Yr oedd angen i'r UE ddangos arweiniad a gwneud consesiynau.

- Arweiniodd y ddadl rhwng y ddau begwn at ddatblygu cynigion gan y G21, yr Undeb Affricanaidd a grwpiau Affricanaidd, Caribïaidd a'r Pasiffig ond nid oeddent wedi'u hadlewyrchu yn unrhyw un o'r testunau terfynol.

- Yr oedd Oxfam o'r farn bod materion Singapôr yn erbyn datblygu ac o ganlyniad dylent gael eu cadw oddi ar yr agenda. Byddai'r penderfyniad a ddylid cychwyn trafodaethau ffurfiol am faterion Singapôr ai peidio yn cael ei wneud yn Cancun ac yr oedd yn glir nad oedd llawer o

aelodau yn dymuno gweithredu ar y materion ac o ganlyniad dylid eu hanghofio. Nid oedd yn gwbl glir beth fyddai safbwynt y Comisiwn Ewropeaidd o ran materion Singapôr yn y dyfodol, ond nid oedd adran o fewn Sefydliad Masnach y Byd i drafod y materion.

- Wrth edrych tuag at y dyfodol y flaenoriaeth oedd ceisio ailgychwyn y trafodaethau gydag ymrwymiad newydd tuag at y cylch datblygu a chael gwared ar yr amgylchedd gelyniaethus. Yr oedd angen i'r UE amddiffyn gwaith amlochrog, a gafodd ei danseilio gan Cancun. Yn ôl Oxfam, Sefydliad Masnach y Byd oedd yn cynnig y dêl orau o ran gweithio amlochrog er gwaetha'r ffaith bod angen ei newid, ac yr oedd agwedd ddwyochrog yn bryder i'r holl sefydliadau datblygu.

4.5 Gwnaeth Ian Vollbracht o dîm Materion Polisi Masnach Cynrychiolwyr y DU y pwyntiau canlynol yn ei gyflwyniad:

- Bu'r diffyg trafodaethau yn siom mawr i Lywodraeth y DU: yr oedd cefnogaeth frwd i bolisi masnach amlochrog a chyfleoedd i wella masnach Gogledd-De a De-De. Yr oedd y DU yn croesawu'r ffaith bod safbwyntiau'r gwledydd sy’n datblygu yn cael eu clywed yn Sefydliad Masnach y Byd, ond yr oedd y ffaith bod Sefydliad Masnach y Byd yn gweithredu gyda nifer fawr o aelodau ar sail consensws yn ei gwneud hi'n anodd i fwrw ymlaen â materion.
- O ran mecanweithiau polisi masnach yn y UE, yr oedd y Comisiwn yn gymwys o dan erthygl 133 i drafod ar ran yr Aelod-Wladwriaethau ac yr oedd Pwyllgor 133 yn cwrdd bob wythnos fel corff ymgynghorol i drafod gyda'r Aelod-Wladwriaethau. Soniodd Oxfam nad oedd gan y cyrff anllywodraethol rôl uniongyrchol yn y broses hon a bod gweithrediadau Pwyllgor 133 yn weddol aneglur.
- Yr oedd ymrwymiad yr UE at bolisi masnach amlochrog wedi ei nodi yn gwbl glir ar ôl Cancun. Efallai y byddai angen cyfaddawd rhwng diwygio seiliau a changhennau Sefydliad Masnach y Byd a symud y cylch Doha o amgylch oherwydd bod adnoddau Sefydliad Masnach y Byd yn rhy gyfyng i ddelio â'r ddau.

4.6 Nododd y Pwyllgor bod Cymru yn rhan o aelod-wladwriaeth cyfoethog ond bod angen cydbwyso'r dadleuon dros hawliau’r gwledydd sy'n datblygu gyda buddiannau ffermwyr llai o faint Cymru sy'n ceisio premiwm am eu nwyddau. Dywedodd Oxfam Cymru fod amaethyddiaeth Cymru yn wahanol iawn i rannau eraill o Ewrop ac nid oedd gan Cymru ddim i'w golli o’r diwygiadau parhaus i'r PAC - yr oedd 80 y cant o'r cymorthdaliadau yn mynd at ffermwyr mwy o faint. Ar yr un adeg yr oedd hi'n bosibl y byddai'n rhaid talu pris i fod yn ddinesydd byd-eang. Er enghraifft os oedd llaeth Cymru yn distrywio ffyrdd o fyw tramor oherwydd cymorthdaliadau a dympio yna dylid mynd i'r afael â hynny - rhaid i bobl yng Nghymru fod yn ymwybodol o'u heffaith ar weddill y byd. Yr oedd Oxfam Cymru yn lansio cais i Gymru fod y wlad masnach deg cyntaf yn y byd y flwyddyn nesaf gyda chefnogaeth oddi wrth fusnesau, cynghorau, eglwysi a'r cyhoedd. Yr oedd eisiau gweld y Cynulliad yn dangos cefnogaeth ac yn annog trafodaethau ar y mater gydag undebau amaethyddol Cymru. Cytunodd Jill Evans ei bod hi'n bwysig bod y Cynulliad yn cefnogi gwledydd sy'n datblygu ar faterion masnachu teg.

4.7 Dywedodd y Comisiwn Ewropeaidd ei fod wedi dangos cryn hyblygrwydd ar rai materion megis ad-

daliadau allforio a chymorth masnach ac nid yr UE oedd yn atal cytundeb. Efallai y byddai Diwygio'r PAC yn cyflawni llawer iawn o ran ceisio gwthio'r sefyllfa ymlaen ymhellach.

4.8 Dywedodd Oxfam fod y ffaith fod y DU yn bryderus ynghylch cythruddo lobïwyr yn y cyfnod cyn yr etholiad wedi chwarae ran. Gofynnodd y Pwyllgor pa gamau y gallai'r UE fod wedi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn cyn Cancun. Dywedodd y Comisiwn Ewropeaidd y byddai'n debygol o gael ei feirniadu pe bai wedi cynnal trafodaethau gyda'r UDA cyn Cancun neu beidio. Yr oedd cytundebau masnach yr UE a'r Unol Daleithiau yn agored ac yr oedd yr UE wedi cymryd camau i ddiogelu gwledydd sy'n datblygu yn erbyn rhai cymorthdaliadau. Yr oedd y Comisiynydd Lamy yn trafod yn gyson gyda chynrychiolydd Masnach yr UDA.

4.9 Yr oedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch y diffyg cynrychiolaeth o Affrica yn yr hen grp G21, ac eithrio De Affrica. Gobeithiwyd y byddai cysylltiadau yn cael eu meithrin yn y cyfnod cyn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr.

4.10 Yr oedd hi'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng y gwledydd sy'n datblygu a'r ofn y byddai swyddi'n cael eu trosglwyddo i rai o'r gwledydd mwyaf pwerus sy'n datblygu. Yr oedd gan Brasil gryn dipyn o allu i ddatblygu'i amaethyddiaeth er mwyn bodloni galw y marchnadoedd newydd. Yr oedd gan Tsiena botensial mawr o ran gweithgynhyrchu ac yr oedd gan India sector gwasanaeth telathrebu cryf.

4.11 Dylid hefyd ystyried y cysylltiad â thargedau datblygu cynaliadwy, oherwydd y gallai gweithredu llym mewn gwledydd datblygedig olygu bod mwy o swyddi yn symud i'r gwledydd sy'n datblygu. Dywedodd Jill Evans ASE y dylai materion amgylcheddol gael eu cadw ar wahân o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig ac ar wahân oddi wrth gytundebau masnach Sefydliad Masnach y Byd, a dylent hefyd fod yn amodol ar safonau y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

Egwyl am ginio: 12.30 - 14.20

## Item 5 - Dyfodol y Cronfeydd Strwythurol (14.20 - 15.20)

Papurau:

EUR(2) 03-03(p4) - Ail Adroddiad Cydlyniant

EUR(2) 03-03(p5) - Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Polisi Rhanbarthol: Ffeil Ffeithiau ar Ddyfodol y Polisi Cydlyniant

5.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn anffodus na allai Mr Javier Fernandez Lopez o lywodraeth ranbarthol Asturias, ac aelod o’r grp 'rhanbarthau y mae ystadegau'n effeithio arnynt', fod yn bresennol yn y cyfarfod yn sgîl afiechyd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol gwahodd aelodau o’r Grp

Effaith Ystadegol i gyfarfod â'r Pwyllgor rywbryd eto.

5.2 Trafododd y Pwyllgor y sefyllfa ddiweddaraf o ran diwygio'r cronfeydd strwythurol â Graham Meadows, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Polisi Rhanbarthol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yn Y Comisiwn Ewropeaidd, a Mr Dimitri Pur o Genhadaeth Gweriniaeth Slofenia i'r UE. Prif bwyntiau'r cyflwyniadau a'r drafodaeth oedd:

5.3 Roedd Graham Meadows yn fodlon â'r cynnydd yr oedd Cymru yn ei wneud o ran ei rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Roedd rhai pethau da ac arloesol yn digwydd. Nid oedd yn rhagweld y byddai Cronfeydd Strwythurol Amcan 1 Cymru yn cael eu dadneilltuo ar ddiwedd y flwyddyn, ac nid oedd cyllid Amcan 2 yn debygol iawn o gael ei ddadneilltuo ychwaith. Teimlai y gellid gwella cyflymder ymrwymiad prosiectau ond roedd yn hapus â'r newidiadau diweddar i symleiddio rheoli prosiectau ac ag ansawdd yr Adolygiad Canol Tymor a gadarnhaodd yr amcanion a bennwyd yng Nghymru cyn 2000 a'r strategaeth i'w cyflawni.

5.4 Roedd Cymru eisoes wedi derbyn cyllid ychwanegol yn sgîl newidiadau yn y gyfradd gyfnewid rhwng yr ewro a'r bunt. Byddai Cymru'n derbyn cyllid ychwanegol yn fuan o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer perfformiad. Rhagwelwyd y byddai'n £80 miliwn ewro ychwanegol ar gyfer Amcan 1 a £90 miliwn ewro ychwanegol ar gyfer Amcan 2. Yr her fyddai pennu prosiectau i'w hariannu â'r cyllid hwn ar fyr rybudd. Croesawodd y Pwyllgor y cyllid ychwanegol oddi wrth gronfeydd wrth gefn ar gyfer perfformiad a'r gefnogaeth i'r rhaglen mor belled. Nododd rhai Aelodau bod cryn feirniadaeth wedi'i mynegi ynghylch y ffaith bod y rhan fwyaf o'r swyddi a grëwyd wedi bod yn rhai o fewn y sector gwasanaethau ac ni wyddid a fyddent yn parhau yn yr hirdymor.

5.5 Ym mis Ionawr byddai'r Comisiwn yn dosbarthu dogfen gyllideb perspectifau ariannol yn amlinellu'r swm o arian sy'n angenrheidiol ar gyfer y 5-7 mlynedd nesaf o bolisi rhanbarthol a sut mae angen diwygio'r maes polisi hwn. Byddai'n canolbwyntio ar Amcan 1, gan roi pwyslais cynyddol ar ansawdd y ddarpariaeth. Byddai'r swm o arian a dderbynnir yn adlewyrchu lefel y gwaith gweinyddol a fyddai'n ofynnol i roi rhaglenni ar waith. Y newid mwyaf fyddai pwyslais cynyddol ar gystadleugarwch ac ar greu swyddi, fel yr amlinellir yn agenda Lisboa (Lisbon), a chynaliadwyedd fel yr amlinellir yn agenda Gothenburg. Byddai hyn yn arwain at gyfaddawd: byddai gan Gymru ragor o ryddid i wario yn y meysydd y mae'n dymuno gwneud hynny, ond llai o hyblygrwydd o ran y mathau o wariant.

5.6 Roedd iaith newydd yn datblygu ar gyfer disgrifio polisi rhanbarthol. Byddai Rhanbarthau ac Aelod-Wladwriaethau un ai'n 'diddymu'n raddol' neu'n 'cyflwyno'n raddol'. Byddai rhanbarthau cydgyfarfod yn cymryd lle Amcan 1, byddai ardaloedd Amcan 2 yn chwarae rhan allweddol mewn amcanion allweddol ynghylch cystadleugarwch a chyflogaeth, a byddai Amcan 3 yn cwmpasu cydweithrediad rhyngwladol a rhyng-ranbarthol, gan gynnwys cydweithio â chymdogion newydd yr Undeb ar raddfa fwy. Roedd y gwaith yn parhau i ddatblygu ond disgwylid y byddai'n fanteisiol i Gymru. Roedd angen newid agwedd gyfyng y gorffennol ynghylch sut i ymdrin â therfynau morwrol yr Undeb.

5.7 Yn hytrach na cheisio dysgu gwersi o ranbarthau eraill roedd yn bwysig sefydlu fforwm i ymgymryd

â gwaith dadansoddi meddwl agored yng Nghymru, er enghraifft ynghylch sut gallai newidiadau annisgwyl mewn gwerth cyllid effeithio ar raglenni, sut i reoli rheolau ynghylch dadneilltuo er mwyn osgoi rhuthro i roi prosiectau ar waith ac i gynnal ansawdd prosiectau.

5.8 Mewn UE ar raddfa fwy byddai'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) yn disgyn oddeutu 12 pwynt canran a byddai Cymru'n dod i'r casgliad fod ei CMC uwchben 75 y cant o'r cyfartaledd ar 30 Ebrill 2004. Ni fyddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n gymwys i dderbyn cyllid Amcan Un ar hyn o bryd, bellach yn bodloni'r meini prawf. Ni fyddai'r ardaloedd wedi troi'n fwy cyfoethog, ond byddent yn anghymwys oherwydd bod y trothwy wedi newid. Awgrymwyd y byddai'r rhanbarthau sy'n dioddef o'r 'effaith ystadegol' hon yn elwa ar becyn arbennig o gymorth. Byddai'r pecyn yn darparu llai o gyllid nag a fyddai ar gael i ardal Amcan Un, ond mwy nag y byddai ar gael o dan gymorth trosiannol arferol.

5.9 Byddai'r holl faterion hyn yn cael eu trafod a byddai nifer o Aelod-Wladwriaethau yn dymuno i unrhyw becyn effaith ystadegol fod mor agos â phosibl i gymorth trosiannol arferol. Os byddai pecyn o faint rhesymol yn cael ei gymeradwyo byddai'n sicrhau cyllid o'r UE hyd o leiaf 2001-2013, a byddai'n golygu y byddai cyllid o'r UE ar gael i wario hyd 2013-15.

5.10 Mynegwyd pryder ynghylch dynameg y trafodaethau rhwng Aelod-Wladwriaethau ynghylch rhanbarthau y mae ystadegau wedi effeithio arnynt ac ynghylch pwy fyddai'n eu hyrwyddo. Ni fyddai gan lawer o Aelod-Wladwriaethau presennol ddiddordeb oherwydd nad oedd eu rhanbarthau yn gymwys ar hyn o bryd ac ni fyddai'r rhan fwyaf o ddarpar aelod-wladwriaethau yn dod yn rhan o'r categori hwn hyd 2010.

5.11 Nid oedd y Comisiwn yn rhagweld y byddai'r cyllid yn dod i ben ar ôl 2006. Un o'r diwygiadau a gynigiwyd gan y Comisiynydd Barnier oedd y byddai pob rhanbarth yn gymwys i gymryd rhan ym mholisi rhanbarthol yr UE. Er enghraifft, byddai rhannau o Gymru nad ydynt yn elwa ar gymorth rhanbarthol yn gymwys i gymryd rhan yn Amcan 2 ar ei newydd wedd. O ran Amcan 1 roedd lefel y cymorth a oedd ar gael ac am faint y byddai ar gael yn parhau'n ansicr. Nid oedd yn glir ychwaith faint o gymorth y byddai Cymru yn ei dderbyn fel cyfanswm.

5.12 Roedd yn hanfodol bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau'n wyliadwrus ac yn dod i gytundeb barn ynghylch polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Byddai gan y cwestiwn hwn effaith allweddol ar ddatblygu economaidd yn y dyfodol a dylai Cymru fynegi diddordeb mewn lobïo aelodau o'r Cyngor er mwyn sicrhau y clywir ei llais. Efallai fod gan y DU flaenoriaethau eraill ac roedd angen i Gymru benderfynu a ddylai gyd-fynd â gweddill y DU neu fynegi ei barn i'r Comisiwn Ewropeaidd, Llywydd y Cyngor ac i Aelod-Wladwriaethau eraill.

5.13 Yr amserlen oedd y byddai'r trydydd adroddiad cydlyniant yn cael ei ddosbarthu'n fuan, a rhagwelwyd y byddai cynlluniau manwl yn cael eu dosbarthu un ai ym mis Mai neu ym mis Mehefin 2004. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal ag Aelod-Wladwriaethau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2005 ac os byddent yn llwyddiannus byddai blwyddyn yn cael ei neilltuo i gyflwyno'r rhaglenni newydd. Roedd Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw mewn dylanwadu ar y drafodaeth mor belled ac

roedd y Comisiwn yn ymwybodol iawn o'i sefyllfa.

5.14 Teimlai'r Comisiwn fod rhanbarthau yn Lloegr a oedd yn bwriadu aros i weld pa gynigion o ran polisi rhanbarthol fyddai'n fwyaf manteisiol iddynt yn chwarae rhan oddefol. Ni fyddai mor syml â dewis rhwng pecyn gan Lywodraeth y Du a phecyn gan Y Comisiwn Ewropeaidd oherwydd heb unrhyw lobïo byddai'r pecynnau yn debyg iawn. Roedd y DU wedi cytuno i adlewyrchu addewidion y Comisiwn. Byddai'n anffodus i Gymru petai'r drafodaeth yn parhau heb ddod i unrhyw gytundeb o ran barn. O safbwynt yr UE, polisi rhanbarthol oedd y prif bolisi a oedd yn ei gysylltu â'i ddinasyddion.

5.15 Dywedodd Mr Pur nad oedd Slofenia o anghenraid yn nodweddiadol o ddarpar aelod-wladwriaethau ar gyfartaledd gan fod ganddi boblogaeth gymharol fach o 2 filiwn a CMC o oddeutu 72 y cant o gyfartaledd presennol yr UE. Golygai hyn ei fod rhwng Sbaen a Groeg. Roedd Slofenia yn wlad ifanc heb ranbarthau tiriogaethol. Roedd wrthi'n trafod dogfen raglennu â'r Comisiwn Ewropeaidd, a fyddai'n cychwyn yn 2004. Ni fyddai gan Slofenia ond dair blynedd i wario'r arian y byddai'n ei dderbyn, sef 400 miliwn ewro ar gyfer cyllid cydlyniant a chronfeydd strwythurol. Ystyrid Slofenia fel ardal NUTS unigol at ddiben Amcan 1 ar gyfer 2004-2006. Byddai'n derbyn 0.7 y cant o CMC fel cymorth, a oedd yn isel o'i gymharu â rhanbarth yn Sbaen, ond dyna'r hyn y cytunwyd arno.

5.16 Roedd Slofenia o blaid symleiddio cronfeydd strwythurol, gan gyflwyno un gronfa ac un gyllideb. O ran rhanbarthau y mae ystadegau yn effeithio arnynt, byddai Slofenia yn troi'n gyfoethog dros nos pan fyddai'n ymuno â'r UE, a byddai ei CDM yn 82 y cant o gyfartaledd uwch Ewrop, a byddai'n anghymwys ar unwaith yn dechnegol ar gyfer Amcan 1. Ni fyddai'n gymwys fel rhanbarth y mae ystadegau'n effeithio arno yn 2006, a byddai Cymru'n derbyn cronfeydd ychwanegol ar gyfer diddymu'n raddol tra byddai Slofenia yn derbyn yr arian arferol am ddiddymu'n raddol. Roedd Slofenia yn cefnogi'r Amcan 3 newydd a chydweithio ar ffin yr UE. Roedd gan Slofania ffin hir â Chroatia, sef gwlad y gellid disgwyl iddi ddod yn aelod-wladwriaeth yn y dyfodol. Roedd ganddi hefyd ffiniau â Moldova ac Ukrain. Roedd cyfnewid arferion da yn bwysig i Slofenia, er enghraifft gefeillio â chwmnïau yn y Balcanau Gorllewinol, lle roedd llawer o siaradwyr Saesneg. Roedd cyfleoedd a meysydd cyffredin o ddiddordeb rhwng Cymru a Slofenia i gydweithredu ynghylch polisi rhanbarthol yn y dyfodol ac o ran cydweithio â chymdogion y tu allan i'r UE.

5.17 Trafododd y Pwyllgor sut i weinyddu Cronfeydd Strwythurol mewn cyfnod gweithredu byr, a holodd a fyddai Slofenia yn gallu dilyn yr un egwyddorion democrataidd â Chymru, drwy gynnwys y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol wrth reoli'r rhaglenni. Dywedodd Slofenia fod ganddi system reoli debyg i un Iwerddon ynghyd â threfniadau gweithredu a monitro canolog i'w galluogi i ddechrau arni'n gyflym. Byddai'r strwythur hwn yn cael ei adolygu yn nes ymlaen. Nid oedd yn glir sut byddai Gwladwriaethau'r Baltig a Gwlad Pwyl, a oedd â hawl i lefelau uwch o gyllid, yn gallu manteisio ar y cyllid sydd ar gael. Nodwyd y byddai canolbwyntio ar seilwaith yn golygu y defnyddid yr arian ond gallai arwain at brosiectau nad oedd yn creu swyddi cynaliadwy. Roedd Cymru wedi dysgu o'r camgymeriadau hyn yn y gorffennol ac wedi mynd ati i gefnogi mentrau bach a chanolig a chwmnïau technoleg arloesol i greu swyddi. Byddai Aelod-Wladwriaethau newydd nad oedd â phrofiad o reoli prosiectau yn croesawu gwybodaeth ac arbenigedd Cymru.

Egwyl: 15.20 - 15.45

## Eitem 6 - Cyfansoddiad drafft yr UE (15.45 - 16.40)

Papurau:

EUR(2) 03-03(p6) - Cyfansoddiad drafft yr UE

EUR(2) 03-03(p7) - Y datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau ar y Cyfansoddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor Gyfansoddiad drafft yr UE â William Sleath o Dasglu'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Confensiwn, Freddy Evens o Lywodraeth Ranbarthol Fflandrys, a Michael Aron o Gynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE.

6.2 Amlinellodd William Sleath y sefyllfa ddiweddaraf â'r Gynhadledd Ryng-Lywodraethol. Ei thasg oedd cynhyrchu testun y gallai'r holl aelod-wladwriaethau ei gyflwyno i'w seneddau cenedlaethol ar gyfer cadarnhad. Roedd y gwaith cyfreithiol i sicrhau bod y testun terfynol yn gynhwysfawr yn mynd rhagddi'n dda. Pennwyd nifer o faterion allweddol gan Lywyddiaeth Yr Eidal yn ystod yr haf, ac roedd rhai ohonynt yn fwy sylfaenol nag eraill. Roeddent yn cynnwys cwmpas pleidleisio mwyafrifol a pholisi amddiffyn cyffredin.Gallai'r cyfnod trafod gwirioneddol ddechrau ddiwedd mis Tachwedd pan gyflwynwyd testun cyfaddawdu.

6.3 Safbwynt Y Comisiwn Ewropeaidd oedd fod y Cyfansoddiad yn cyflawni llawer o ran yr hyn oedd ei angen ond roedd angen mynd i'r afael â rhai materion o hyd. Roedd cyfansoddiad y Comisiwn o fewn UE ar raddfa fwy yn destun pryder. Roedd dau ddewis: gellid ei gwneud yn llai, er mwyn ei gwneud yn haws i'w rheoli, ond gallai gael ei ystyried fel corff ynysig; neu gellid ei gwneud yn fwy, gan benodi Comisiynydd i gynrychioli pob aelod-wladwriaeth. Y perygl â hyn oedd y gallai fod yn amhosibl rheoli'r Undeb, a byddai cynnig yn creu lefelau o Gomisiynwyr yn dileu egwyddor draddodiadol colegoldeb. Er mwyn sicrhau cyfreithlondeb ffefrid penodi 25 Comisiynydd â statws cyfartal. Cytunodd Michael Aron, Cwnsler Gwleidyddol Cynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE, ei fod yn fater pwysig i Lywyddiaeth Yr Eidal ymdrin ag ef. Roedd llawer o aelod-wladwriaethau yn mynnu sicrhau un Comisiynydd ar gyfer pob gwladwriaeth ond roedd Benelux, Ffrainc a'r Almaen yn gwrthwynebu hynny.

6.4 Dywedodd William Sleath fod y Confensiwn wedi cymryd rhai camau cadarnhaol ynghylch mater pleidleisio mwyafrifol amodol mewn UE ar raddfa fwy, ond gallai cynigion pellach gael eu cyflwyno er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Nododd Cynrychiolydd y DU fod Sbaen a Gwlad Pwyl yn bryderus iawn ynghylch newid system bleidleisio'r Cyngor. Roedd Cytundeb Nice yn cyflwyno system bleidleisio bwysol gymhleth, a oedd wedi bod yn fanteisiol iddynt. O dan Nice, cafodd Yr Almaen, Ffrainc, Yr Eidal a'r DU y nifer mwyaf posibl o bleidleisiau - 29 a chafodd Sbaen a Gwlad Pwyl 27 er bod eu poblogaeth yn llawer iawn llai. Roeddent yn awyddus i ddiogelu hyn, ond roedd y Confensiwn wedi cyflwyno system llawer iawn symlach o fwyafrif o aelod-wladwriaethau a 3/5 o'r boblogaeth. O dan y system hon, ni chafodd Sbaen a Gwlad Pwyl ond hanner pleidleisiau Yr Almaen. Byddai'r DU yn

fodlon derbyn unrhyw un o'r systemau a byddai ganddi ddiddordeb mewn gweld beth fyddai'r Llywyddiaeth yn ei gyflwyno.

6.5 Roedd gan Gynrychiolaeth y DU safbwynt gwahanol o'i gymharu â'r Comisiwn ynghylch rhai materion fel treth. Byddai cyflwyno pleidleisio mwyafrifol amodol yn yr ardaloedd hynny yn cynrychioli trosglwyddo sofraniaeth sy'n annerbyniol i etholwyr y DU, a byddai angen gwneud rhai diwygiadau i sicrhau unfrydedd. Crybwyllwyd hawliau etholwyr y DU a phleidleisio dros Senedd yr UE yn ogystal - byddai rhai pobl yn colli eu hawl i bleidleisio. Byddai'n rhaid i'r Eidalwyr gyflwyno pecyn a fyddai'n datrys yr holl faterion hyn.

6.6 Nododd y Comisiwn mai un o nodau'r cyfansoddiad oedd creu rhyw fath o barhauster. Fodd bynnag, gallai hynny arwain at ddiffyg hyblygrwydd o fewn meysydd polisi manwl, ac roedd rhai syniadau wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau ei bod yn haws cyflwyno newidiadau yn y dyfodol.

6.7 Mynegodd Mr Freddy Evens ymddiheuriadau Y Gweinidog Ceysens, Gweinidog Fflandrys dros Faterion Tramor, a fyddai wedi hoffi bod yn bresennol. Cyflwynodd Mr Evens ddau bapur a fyddai'n cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

6.8 Roedd Llywodraeth Fflandrys wedi cyflwyno sylwadau mewn Cynadleddau Rhyng-Lywodraethol blaenorol ynghylch datganiad Laeken. Ni allai gyflwyno ymateb ffurfiol ac annibynnol ar ran Fflandrys ond byddai'n ceisio dylanwadu ar farn gyffredinol Gwlad Belg. Yn y Gynhadledd Ryng-lywodraethol ddiweddaraf roedd yn adlewyrchu barn Benelux, Ffrainc, Yr Almaen a'r DU nad oedd yn dymuno peryglu'r cydbwysedd a gyflawnwyd yn y Confensiwn.

6.9 Roedd y cyfansoddiad drafft yn bwysig i Fflandrys oherwydd bod trefniadaeth gyfansoddiadol Gwlad Belg yn datganoli nifer o gymwyseddau i'r llywodraeth ranbarthol. Roedd yn gweithredu fel aelod-wladwriaeth ar wahân mewn sawl achos. Gan fod senedd Fflandrys yn gorff deddfwriaethol ymreolaethol mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli'n llwyr dylid ei drin fel corff o'r fath. Roedd cynigion Fflandrys ar gyfer y Gynhadledd Ryng-lywodraethol ddiweddaraf yn cynnwys chwarae rhan mwy blaenllaw yn y Cyngor, ymgynghori'n uniongyrchol ac yn gynnar â rhanbarthau ynghylch deddfwriaeth yr UE a gofyn am hawl uniongyrchol i fynychu'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, heb orfod profi bob amser bod achos yn effeithio'n uniongyrchol ar eu rhanbarth.

6.10 Trafodwyd sut y gallai gweinyddiaethau datganoledig ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau. Dywedodd Michael Aron fod dylanwad y papur ar y cyd a gyflwynwyd i'r Confensiwn gan Peter Hain yn eithaf annisgwyl. Roedd aelod-wladwriaethau a rhanbarthau eraill wedi ymateb yn ffafriol iddo. Gallai gwelliannau eraill gael eu gwneud mewn perthynas â swyddogaethau llywodraethau rhanbarthol, fel y disgrifiodd Freddy Evens. Credai Llywodraeth Fflandrys fod datblygu cynghreiriau rhanbarthol yn hanfodol er mwyn cyflwyno syniadau tebyg ac roedd wedi ceisio meithrin cysylltiadau agos â rhanbarthau'r Almaen ac Awstria, ac yn fwy diweddar â gweinyddiaethau datganoledig y DU. Roedd gan RegLeg swyddogaeth bwysig: roedd datganiad Salzburg yn gam mawr ymlaen ac fe'i cyflawnwyd yn bennaf drwy rwydweithio rhanbarthol. Fodd bynnag, byddai'r syniad o ranbarthau â

phwerau deddfwriaethol yn anodd i'r 10 darpar wlad newydd ei ddeall a byddai'n anoddach cymryd camau newydd ymlaen. Byddai angen cymorth gwledydd amlwg fel Yr Almaen a'r DU er mwyn dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau, yn ddelfrydol ar y cyd â Ffrainc a Gwlad Pwyl.

6.11 Cynnig Fflandrys oedd i'r Cyfansoddiad gynnwys yr hyblygrwydd i Aelod-Wladwriaethau wneud eu trefniadau eu hunain o ran swyddogaeth lefelau datganoledig o Lywodraeth mewn materion yn ymwneud â'r UE. Roedd Sbaen yn gwrthwynebu hyn oherwydd yr amgylchiadau arbennig yn y wlad, ond mater o gyfreithloni pwerau datganoledig democrataidd ar gyfer gwneud penderfyniadau ydoedd.

6.12 Nodwyd bod Pwyllgor y Rhanbarthau hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o fwrdeistrefi. Gallai hyn wneud Pwyllgor y Rhanbarthau yn gorff anhylaw, ond golygai'r ffaith bod cyrff dinesig yn cael eu cynnwys y byddai disgwyl i ddarpar aelod-wladwriaethau gymryd rhan ymhob agwedd ar ei waith.

6.13 Roedd cwmpas ar gyfer hyfforddiant ynghylch rhanbartholdeb mewn rhai gwledydd yn Nwyrain Ewrop. Roedd cyrff rhanbarthol heb unrhyw gefndir hanesyddol yn cael eu creu ar gyfer gweinyddu cronfeydd strwythurol mewn rhai darpar wledydd. Roedd dadl o blaid rhanbarthu cynyddol o fewn darpar wledydd oherwydd gofynion systemau dosbarthu cronfeydd amaethyddol a strwythurol.

6.14 Roedd y Cyfansoddiad drafft yn cynnwys cynnig ar gyfer Siartr Hawliau Sylfaenol. Roedd camau'n cael eu cymryd yng Nghymru i fabwysiadu deddfwriaeth hawliau dynol mewn perthynas â materion plant ond credid bod Llywodraeth y DU yn llai awyddus i wneud hyn. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed ynghylch safbwynt aelod-wladwriaethau eraill ynghylch y mater, a holodd a oedd y DU yn bryderus ynghylch torri cyfraith deuluol. Byddai Cynrychiolaeth y DU yn cyflwyno nodyn i'r Pwyllgor yn egluro ei safbwynt ynghylch y pwnc.

6.15 Diolchodd y Cadeirydd i Jan Royall, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, ac i'r cyfieithwyr am eu cyfraniad o ran trefnu'r cyfarfod.

## Pwynt Gweithredu:

- Byddai'r papurau a gyflwynwyd gan Freddy Evens o Lywodraeth Ranbarthol Fflandrys yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.
- Byddai Cynrychiolaeth y DU yn cyflwyno nodyn i'r Pwyllgor ynghylch safbwynt Llywodraeth y DU o ran deddfwriaeth hawliau dynol mewn perthynas â hawliau'r plentyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.40pm.